# Archarwyr Byd Cyw - Bw!
## gan Sioned Wyn Roberts
## Cyw's Superheroes - Boo!

1. Mae hi'n noson Calan Gaeaf ac mae Archarwyr Cyw am gael parti sbŵci. Mae'r gwisgoedd, y pwmpenni oren a'r malws melys i gyd yn barod. Dim ond un peth sydd ar ôl – yr afalau taffi.

2. Wrth i Llew roi'r afalau taffi ar y bwrdd, mae rhywbeth gwyn yn neidio i mewn drwy'r drws ac yn gweiddi "Bw!" "Ysbryd!" gwaeddodd Llew mewn ofn.

3. Mae'r archarwyr wedi dychryn gymaint, mae eu siwpyr-bwerau yn hollol wyllt! Mae Llew yn gwneud bybls, Cyw yn neidio'n uchel, uchel, a Jangl yn mynd yn gyflym iawn. Ond mae Plwmp wedi cael mwy o sioc na neb ac yn chwythu fel balŵn yn colli pwff. Plwmp druan!

4. Wrth i bawb dawelu, mae balŵn yn byrstio wrth glust Triog. Pop!

5. Mae Triog yn cael cymaint o fraw, mae ei siwpyr-bŵer cryf yn tynnu'r holl afalau taffi gludiog ati nes ei bod hi'n edrych fel anghenfil Calan Gaeaf!

6. "Mmm, dyma'r afalau taffi gorau yn y byd," meddai Plwmp.
"A dyma'r anghenfil Calan Gaeaf gorau yn y byd!" meddai Llew, a gwenu ar Triog.

7. Mae Triog yn gweiddi "Bw!" eto, ond does neb yn dychryn y tro yma. Maen nhw'n rhy brysur yn sglaffio bwyd blasus y parti Calan Gaeaf gorau erioed.

1. It's Halloween night and Cyw's Superheroes are having a spooky party. The costumes, orange pumpkins, and marshmallows are all ready. There's only one thing left—the toffee apples.

2. But as Llew puts the toffee apples on the table, something white jumps in through the door and shouts "Boo!"
"A ghost!" shouted Llew in fear.

3. The superheroes are so scared, their superpowers go completely wild! Llew makes bubbles, Cyw jumps high, high, and Jangl moves very fast. But Plwmp has had more of a shock than anyone and blows like a balloon losing its puff. Poor Plwmp!

4. As everyone calms down, a balloon bursts by Triog's ear. Pop!

5. Triog gets such a fright that her strong superpower pulls all the sticky toffee apples toward her until she looks like a Halloween monster!

6. "Mmm, these are the best toffee apples in the world," said Plwmp.
"And this is the best Halloween monster in the world!" said Llew, smiling at Triog.

7. Triog shouts "Boo!" again, but no one is scared this time. They're too busy gobbling up the delicious food at the